Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau

Dyddiad: 28 Mehefin 2019

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 4 GORFFENNAF 2019** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RUTHUN**.

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU ETHOLEDIG AM 9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 PENODI IS-GADEIRYDD** (Tudalennau 5 - 6)

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2019/20 (copi o ddisgrifiad rôl yr Aelod Craffu a'r Cadeirydd/ Is-Gadeirydd ynghlwm).

**3 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 7 - 8)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**5 COFNODION** (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019 (copi wedi'i atodi).

**6 MABWYSIADU SIARTER GYDYMFFURFIO Â CHYNLLUNIO** (Tudalennau 19 - 52)

Ystyried adroddiad oddi wrth y Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn am farn yr aelodau ar Siarter Gydymffurfio â Chynllunio drafft yn amlinellu sut yr ymdriniwyd â honiadau o dorri rheolaeth gynllunio a sut y gallai cwynion a sefydliadau lleol fel Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned gynorthwyo gyda sicrhau cydymffurfio â chynllunio.

**10.10 a.m. – 10.40 a.m.**

**7 ADOLYGU A DIWEDDARIAD AR Y PROSIECT RHEOLEIDDIO CARAFANAU GWYLIAU** (Tudalennau 53 - 62)

Ystyried adroddiad **(sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol)** oddi wrth y Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn darparu diweddariad ar reoleiddio meysydd carafanau gwyliau yn y sir ac i asesu effeithiolrwydd ymagwedd y Cyngor tuag at sicrhau cydymffurfio ag amodau cynllunio a thrwyddedu.

**10.40 a.m. – 11.20 a.m.**

**~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~ EGWYL ~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~**

**8 ADRODDIAD DIWEDDARU AR REOLI GWYLANOD** (Tudalennau 63 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn diweddaru'r aelodau ar y cynnydd a wnaed ar y Cynllun Gweithredu Rheoli Gwylanod ynghyd â chamau gweithredu pellach arfaethedig.

**11.30 a.m. – 12 hanner dydd**

**9 MEYSYDD PARCIO YN SIR DDINBYCH** (Tudalennau 83 - 110)

Ystyried adroddiad oddi wrth y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd (copi ynghlwm) gan ddarparu diweddariad ynghylch gweithredu Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio a materion meysydd parcio eraill, a chael barn yr aelodau arnynt.

**12 hanner dydd – 12.30 p.m.**

**10 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 111 - 132)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi wedi'i atodi) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac yn diweddaru aelodau ar faterion perthnasol.

**12.30 p.m. – 12.45 p.m.**

**11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor

**12.45 p.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Huw Williams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor | Anton Sampson |
| Brian Blakeley | Glenn Swingler |
| Rachel Flynn | Andrew Thomas |
| Tina Jones | Graham Timms |
| Merfyn Parry | Cheryl Williams |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned